

Canllawiau ar gyfer gwneud gwybodaeth yn hawdd ei darllen a'i deall i bobl ag anabledd dysgu

2. Cynllunio





Roedd John
yn falch ei fod wedi dweud
wrth y Bwrdd Iechyd Lleol am ei
broblem gyda dogfen ymgynghori'r
Bwrdd. "Fe wnaethon nhw wrando!
Maen nhw wedi gofyn i mi ymuno
â phanel i'w helpu. Rydw i'n siwr
gwnawn i gael trefn ar bethau
gyda'n gilydd".

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	4
Rhestr wirio cyn cychwyn	5
Proses	6
Meddyliwch pwy yw eich grŵp targed	6
Sefydlu panel allan o'ch grŵp targed	7
▪ All gwybodaeth ysgrifenedig ddiwallu eu hanghenion?	7
▪ Beth sy arnyn nhw eisiau ei wybod?	8
Pa wybodaeth rydych chi am ei rhoi iddynt?	8
Cynllunio'r cynnwys a'i wirio gyda'ch panel	9
Dewis eich arddull ysgrifennu	10
▪ Ei fraslunio, ei wirio a'i fraslunio eto	10
Ei fraslunio ef eto a gweithio ar y dylunio	11
Cael y wybodaeth allan	12
Cwblhau, darllen y proflenni ac argraffu	13
Monitro a gwella	13

2. Cynllunio

Cyflwyniad

Mae gofyn cynllunio'n ofalus i wneud gwybodaeth hawdd ei deall. Gall hyn arbed arian yn nes ymlaen a sicrhau bod eich gwybodaeth yn briodol. Edrychwch ar y rhestr wirio hon cyn i chi hyd yn oed godi pen ysgrifennu neu roi eich cyfrifiadur ymlaen.

Rhestr wirio cyn cychwyn

Pethau sylfaenol

- I bwy rydych chi am roi gwybodaeth? ☐
- Beth rydych chi am ei ddweud? ☐
- Beth yw'r wybodaeth allweddol? ☐
- Beth rydych chi am iddynt wneud â'r wybodaeth? ☐
- A ydynt wir angen gwybod? ☐

Pethau ymarferol

- Sut mae eich grŵp targed yn cael gwybodaeth fel arfer? ☐
- Adnoddau:
 - fedrwch chi ddefnyddio'r dull y mae eich grŵp targed yn ei ddefnyddio fel arfer?* ☐
 - pa adnoddau sydd gennych?* ☐
 - fedrwch chi wneud y gwaith gyda'r adnoddau sydd gennych chi?* ☐
- Ydych chi'n mynd i ddefnyddio gwybodaeth ysgrifenedig:
 - ar ei ben ei hun?* ☐
 - fel cymorth atgoffa ar ôl cyfarfod wyneb yn wyneb?* ☐
 - fel llyfryn sy'n mynd gyda DVD?* ☐
- Fydd o'n mynd ar y rhynggrwyd, yn cael ei argraffu neu'r ddau? ☐
- Pwy fydd angen cymryd rhan:
 - oddi mewn i'r mudiad?* ☐
 - o'r tu allan i'r mudiad* ☐
- Sut byddwch chi'n gwirio'r wybodaeth cyn ei gynhyrchu? ☐
- Sut byddwch chi'n gwneud y wybodaeth yn hawdd cael gafael arno? ☐

Monitro a gwella

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darllen? ☐
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod y wybodaeth yn ddealladwy? ☐
- Sut byddwch chi'n gwybod os yw eich gwybodaeth yn gwneud gwahaniaeth? ☐

2. Cynllunio

Proses

Chi fydd â'r cyfrifoldeb o gynllunio'r broses fydd yn gweithio ar gyfer eich mudiad. Mae gweddill y bennod hon yn awgrymu camau y dylech eu cynnwys, yn enwedig ar gyfer darnau mwy swmpus o waith neu os ydych am osod arddull mewnol ar gyfer gwybodaeth ysgrifenedig.

Meddylwch pwy yw eich grŵp targed

Wrth ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd, mae arnoch chi angen cofio bod hyn yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u rhieni/gofalwyr a gweithwyr cefnogi. Gall eich cynulleidfa gynnwys pobl sydd â nam corfforol neu synhwyraidd ac fe all gynnwys pobl nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg na'r Saesneg. Os dim ond un fersiwn o wybodaeth ysgrifenedig y gallwch chi ei gwneud, bydd angen i chi sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cymaint o'r gynulleidfa â phosibl.

Efallai hefyd eich bod yn ysgrifennu'n benodol ar gyfer rhieni/gofalwyr neu bobl ag anableddau dysgu. Mae ar bobl ag anableddau dysgu angen y cyfle i ddarllen gwybodaeth ar eu pennau eu hunain, fel rhan o fyw'n annibynnol ac fel rhan o amddiffyn eu preifatrwydd. Er hynny, bydd ar lawer o bobl ag anableddau dysgu eisiau rhywun i'w helpu i ddarllen gwybodaeth un ai rhan o'r amser neu trwy gydol yr amser. Ni all mudiadau ddod i ben â darparu gwybodaeth unigoledig ar gyfer pobl sydd ag anghenion cyfathrebu unigoledig. Os dyma yw'r achos, dylai'r mudiad, o leiaf, sicrhau bod gofalwr yn deall y wybodaeth yn llwyr a'i fod yn cael cymorth i gyfathrebu â'r person.


*"Gan amlaf, mae'n well
gen i gael gwybodaeth a'i rhoi i John ac egluro.
Dydw i ddim yn teimlo y dylai pobl siarad â mi dros ei ben
ond rydw i yn teimlo bod angen ei esbonio iddo – byddaf yn
rhoi fy mhig i mewn os ydw i'n gweld nad ydy o wedi ei deall,
a gall hynny edrych fel petawn i'n ymyrryd."*

Gweithiwr cefnogi John

2. Cynllunio

Sefydlu panel allan o'ch grŵp targed

Mae cyfathrebu yn broses ddwy ffordd. Mae arnoch angen gwrandao ar aelodau eich grŵp targed. Mae cychwyn panel yn golygu peth amser a chostau, felly gall mwy nag un mudiad ddymuno rhannu panel. Os ydych yn gweithio mewn mudiad bach iawn, efallai bydd yn rhaid i chi ddibynnu ar siarad yn anffurfiol ag ychydig o bobl yn hytrach na sefydlu panel mwy ffurfiol.



Roedd John yn falch ei fod wedi dweud wrth y Bwrdd Iechyd Lleol am ei broblem gyda dogfen ymgynghori'r Bwrdd. *"Fe wnaethon nhw wrando! Maen nhw wedi gofyn i mi ymuno â phanel i'w helpu. Rydw i'n siwr gwnawn i gael trefn ar bethau gyda'n gilydd".*

Wrth i aelodau o'ch panel weithio gyda chi, fe fyddan nhw'n casglu gwybodaeth, medrau ac agweddau sydd ddim yn nodweddiadol o aelodau eich cynulleidfya. Golyga hyn bod arnoch angen newid aelodau eich panel yn rheolaidd i'w rhwystro rhag mynd yn broffesiynedig a rhag peido â bod yn nodweddiadol o'ch cynulleidfya bellach.

All gwybodaeth ysgrifenedig ddiwallu eu hanghenion?

Dim ond un ffordd o roi gwybodaeth yw gwybodaeth ysgrifenedig. Mae rhai pobl yn dibynnu ar dafod leferydd, eraill ar gyfrwng cymdeithasol, eraill ar bobl proffesiynol yn dweud wrthyn nhw, eraill ar fynd i gyfarfodydd. Mae rhai yn gwrandao ar radio lleol neu'n darllen papurau newydd lleol, eraill yn chwilio'r rhyngwrdd. Ychydig iawn sy'n debygol o ddewis chwilio am daflenni ac adroddiadau fel eu hoff ffordd o gael gafael ar wybodaeth.

2. Cynllunio


Mae llawer o bobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron yn defnyddio darllenydd sgrîn i ddarllen gwybodaeth yn uchel. Bydd dogfen Hawdd ei Deall neu ddogfen Iaith Gyffredin yn dal yn anodd ei deall os nad yw wedi ei darparu i ddefnyddio darllenydd sgrîn. Mae'r bennod **Gwneud** yn cynnwys gwybodaeth am ddarllenyddion sgrîn.

Beth sy arnyn nhw eisiau ei wybod?

Mae gofalmwyr a phobl ag anabledd dysgu yn sôn o hyd ac o hyd am drafferthion i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, ar yr adeg mae ei hangen arnynt ac mewn diwyg y maent yn ei deall. Mae cyfathrebu yn broses ddwyffordd. Gofynnwch i'ch panel beth sy arno'i eisiau.

Pa wybodaeth rydych chi am ei rhoi iddynt?

Mae ar bobl eisiau gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt a digon o wybodaeth i ddiwallu eu hanghenion. Llinell denau iawn sydd rhwng darparu digon o wybodaeth a rhoi gormodedd o wybodaeth i bobl. Y mwyaf syml ac eglur yw eich gwybodaeth, hawsaf yn y byd yw hi i bobl sy'n gorfod ymestyn eu hunain i'r pegwn eithaf neu sy'n ei chael hi'n anodd i brosesu gwybodaeth i fyw eu bywydau.



*“Cymaint oedd
fy rhyddhad pan welais i'r
testun Hawdd ei Ddeall! Erbyn i
mi gael cyfle i eistedd ar ôl gofalu
am Ed, rydw i'n rhy flinedig i
ganolbwyntio ar y pethau maen
nhw'n arfer eu hanfon ata i.”*

Mam Ed

2. Cynllunio

Cynllunio'r cynnwys a'i wirio gyda'ch panel

Mae darparu gwybodaeth yn cymryd amser, meddwl ac arian. Mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o'ch adnoddau trwy gynllunio'n ofalus pa wybodaeth rydych chi am ei chynhyrchu. Hyd yn oed gyda llythyrau bydd arnoch angen edrych ar y cynnwys i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pobl.

Cyrhaeddodd


gweithiwr cefnogi John un bore i'w weld yn llawn gofid. Roedd ei weithiwr cymdeithasol wedi anfon llythyr yn dweud y buasai'n galw rhwng 10yb a 2yp. Roedd John yn meddwl bod hyn yn golygu ymweliad pedair awr a bod hynny'n golygu ei fod mewn trwbl.

Pan ffoniodd gweithiwr cefnogi John, yr unig beth roedd y gweithiwr cymdeithasol yn ei feddwl oedd ei fod am alw i mewn am 10 munud rhyw ben rhwng 10 o'r gloch a 2 o'r gloch.

Os yw'r person sy'n gwneud y wybodaeth a'r person sy'n darllen y wybodaeth yn gweld pethau mewn gwahanol oleuni, mae'n hawdd iawn i'r math hwn o gamddealltwriaeth ddigwydd. Bydd gwirio pethau gyda'ch panel yn lleihau'r tebygrwydd o gamddealltwriaeth.

2. Cynllunio

Bydd math arall o gamddealltwriaeth yn codi os bydd yr wybodaeth heb gynnwys rhai camau sy'n ymddangos yn amlwg i'r person sy'n ysgrifennu'r llythyr neu'r llyfryn, ond sydd ddim yn amlwg i'r person sy'n ei dderbyn.



Dewis eich arddull ysgrifennu

Os ydych chi'n ysgrifennu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, defnyddiwch iaith Hawdd ei Deall. Os ydych chi'n ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd neu rieni/gofalwyr, defnyddiwch Iaith Gyffredin. Os oes arnoch chi eisiau rhoi gwybodaeth i bobl ag anableddau dysgu ac rydych yn gwybod bod gan lawer ohonynt anghenion cyfathrebu unigoleddig, gwnewch fersiwn Iaith Gyffredin ar gyfer y rhiant/gofalwr a'r adnoddau (e.e ffotograffau neu luniau) sydd eu hangen ar y rhiant/gofalwr i'w helpu i esbonio'r wybodaeth i'r person mae'n gofalu amdano.

Ei fraslunio, ei wirio a'i fraslunio eto

I weld a yw'r panel yn deall beth rydych chi wedi ei ysgrifennu, gofynnwch i bobl ddarllen y wybodaeth (neu ei gael wedi ei ddarllen iddynt) ac yna roi adborth ar y pwyntiau allweddol. Y gobaith yw y bydd pawb yn gallu gwneud hyn ac y bydd eu

2. Cynllunio

pwyntiau allweddol hwy yn cyd-fynd â'ch pwyntiau allweddol chi. Fodd bynnag, fe welwch weithiau nad yw pobl yn gallu adnabod y pwyntiau allweddol, neu bydd gwahanol bobl yn rhoi gwahanol bwyntiau allweddol, neu nad yw'r pwyntiau allweddol yn cyd-fynd â'ch pwyntiau allweddol chi. Yn yr achos hwn bydd arnoch angen egluro ar lafar neu ddangos yr hyn roeddech chi'n olygu a chymryd eu cyngor ynglŷn â'r ffordd o aileirio eich gwybodaeth.

"Roedden ni'n meddwl ein bod wedi gwneud gwaith da iawn. Fe ddefnyddion ni gôd goleuadau traffig i'w gwneud yn haws - neu felly roedden ni'n meddwl. Ond pan aeth ein llawlyfr at ein panel, nid oedd John yn ei ddeall. Nid oedd yn gwybod bod ystyr arbennig i goch, melyn a gwyrdd. Mae'n gwybod am oleuadau cerddwyr, ond ddim goleuadau traffig."

**Swyddog cyfathrebu Bwrdd Iechyd
Lleol John**

Ei fraslunio ef eto a gweithio ar y dylunio


Mae llawer o gyngor ar ddylunio yn **Gwneud**. Mae dylunio yr un mor bwysig â'r ysgrifennu a'r lluniau i wneud eich gwybodaeth yn hawdd ei deall. Os oes gennych chi'r modd, efallai y byddwch am anfon peth o'r gwaith dylunio allan i gwmni arall.

Os ydych wedi dilyn y canllawiau dylunio yn **Gwneud**, dylai eich dyluniad ar y cyfan fod yn addas i'r diben. Bydd arnoch angen gweld beth mae pobl yn ei feddwl yw ystyr pob delwedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer testun Hawdd ei Deall, ble mae delweddau'n cael eu defnyddio i fod o gymorth i wneud y testun yn gliriach. Y ffordd orau i sicrhau eu bod yn deall yr ystyr yw trwy roi'r delweddau i bobl heb y testun a gofyn iddynt beth yw ystyr pob delwedd. Os yw'r dehongliad yn wahanol i ystyr y testun, bydd arnoch angen gweithio gyda'r panel i ddod o hyd i ddelwedd mwy addas. Golyga hyn eich bod yn mynd â chyflenwad o ddelweddau gyda chi, un ai wedi eu hargraffu neu ar gyfrifiadur glin.

2. Cynllunio

Cael y wybodaeth allan

Os ydych wedi dewis eich panel yn dda, byddant yn gymharol nodweddiadol o'ch grŵp targed. Darganfyddwch pa fannau a gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Er enghraifft, os oes archfarchnad arbennig ble mae llawer ohonynt yn siopa, efallai gallwch roi taflenni mewn stondin arddangos yno. Neu os ydynt yn ymweld â'u meddyg teulu yn aml, gallech ofyn i'r derbynnydd gymryd cyflenwad o daflenni. Efallai bod eich panel yn teimlo bod angen i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth arbennig weld y wybodaeth hon, felly efallai bod arnoch angen trafod ffyrdd o roi'r wybodaeth i bobl yn bersonol. Efallai eu bod yn defnyddio'r rhynggrwyd.



*“Mi awgrymais i eu bod
yn rhoi taflenni bwyta’n iach yno,
achos bod llawer ohonon ni’n mynd yno,
‘dach chi’n gweld. Y tro nesaf es i yno roedd
taflenni ar gael. Ac fe welais rywun yn cymryd
un ac yn edrych arno. Alla i ddim credu eu
bod nhw wedi gwrando arna i!”*

John

Y ffordd hawsaf i rywun gael gafael ar eich gwybodaeth yw i rywun ei rhoi iddyn nhw neu iddi gael ei phostio atynt. Fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn bosibl. Dyma rai awgrymiadau gan ofalwyr, pobl ag anableddau dysgu ac arbenigwyr marchnata:

- Dywedwch wrth fudiadau eraill am eich gwybodaeth.
- Meddyliwch ble mae'ch cynulleidfa'n mynd a rhowch gyflenwad o daflenni yno.
- Meddyliwch beth arall mae eich cynulleidfa yn ei ddarllen ac yn gwrando arno, a hysbysebwrch yno.
- Meddyliwch wrth bwy mae eich cynulleidfa yn debygol o ofyn a sicrhewch bod y bobl hynny yn gwybod am eich gwybodaeth.
- Gwnewch e'n hawdd dod o hyd iddo os bydd rhywun yn chwilio'r rhynggrwyd.

2. Cynllunio

Cwblhau, darllen y proflenni ac argraffu

Mae angen i'ch gwybodaeth fod o safon uchel. Mae'n well i rywun sydd heb gymryd rhan mewn gwneud yr wybodaeth ddarllen y proflenni. Gall pethau bach, fel drysu rhwng 'it's' ac 'its', wneud i bobl feddwl bod eich gwybodaeth o safon isel. Wrth ei wirio, sicrhewch eich bod wedi cynnwys manylion am yr amser y cafodd yr wybodaeth ei gwneud a chan bwy. Mae hyn yn digwydd yn awtomatig ar lythyrau, ond weithiau mae'n cael ei anghofio ar daflenni. Mae dyddiad yn helpu pobl i weld a yw'r wybodaeth yn gyfredol ynteu a allai fod wedi dyddio.

Monitro a gwella

Mae'n dda gwybod sut y byddwch yn monitro neu'n prisio gwerth eich gwasanaeth gwybodaeth cyn anfon eich gwybodaeth allan. Efallai y byddwch angen cydymffurfio ag anghenion archwiliad cyfundrefnol. Neu efallai mai'r unig beth fydd arnoch eisiau fydd prisio gwerth eich gwybodaeth er mwyn gwella'r ffordd mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth yn barhaus.

Gwnewch nodyn o'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei hanfon allan. Golyga hyn y gallwch weld yn ddiweddarach a yw'r wybodaeth wedi cyrraedd y gynulleidfa iawn. Cynlluniwch pryd i anfon gwybodaeth allan, er mwyn iddi fynd allan ar yr amser priodol. Er enghraifft, peidiwch ag anfon llythyrau sy'n debygol o boeni pobl ar ddydd Iau a dydd Gwener rhag ofn i'r llythyr gyrraedd ar y dydd Sadwrn pan nad oes modd iddynt ffonio neb am help.

Dylech gynnwys prisio gwerth fel rhan o'ch cynllunio ar gyfer y wybodaeth; nid yw'n gam i'w gymryd ar ei ben ei hun ar wahân. Mae'n ffurfio sylfaen ar gyfer cychwyn y camau nesaf trwy adolygu yr hyn rydych wedi ei ddysgu.

© Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru / Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan/ Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan 2012

Am ragor o gopiâu o'r canllawiau hyn cysylltwch ag Anabledd Dysgu Cymru

Ffôn 029 2068 1160

E-bost enquiries@learningdisabilitywales.org.uk

Ffotograff y clawr blaen: Inspired Services

